Bitesize

# Mesuriadau bras

| | |
|---|---|
| TWM-SIÔN | Iawn Cat, af i 'nôl carped newydd te. |
| CATI | Grêt Twm-Siôn. Dywedodd y gwerthwr tai bod yr ystafell yn dri phwynt wyth metr wrth ddau bwynt pedwar metr. Bydd tri deg punt yn ddigon. |
| CATI | Ych, mae'n afiach a dyw e ddim yn ffitio. |
| TWM-SIÔN | Dw i wedi cael fy nhwyllo! |
| AL GEBRA | Roeddwn i'n meindo fy musnes i lawr ym Mhenffordd, pan ddaliais i'r lladron byd enwog Twm-Siôn a'i chwaer fawr, Cati. |
| CATI | Ymm, hai-a. |
| AL GEBRA | Al yw'r enw. Ditectif Preifat. |
| | Ryg swanc, ffitio'n wael. |
| TWM-SIÔN | Dywedodd yr arwydd ei fod yn dri phwynt wyth metr wrth ddau bwynt pedwar metr – union faint yr ystafell yma. |
| AL GEBRA | Doedd Twm-Siôn heb sylweddoli bod mesuriadau wastad yn fras. Doedd e ddim yn ffŵl i brynu ryg hyll, ond doedd e ddim yn Einstein chwaith. Roedd e rhywle yn y canol - ffŵlstein! |
| TWM-SIÔN | Hei! |
| AL GEBRA | Rhaid gwybod lle mae dy arffiniau! Roedd y mesuriadau i un lle degol, sef i'r deg centimetr agosaf. Felly, roedd rhaid i mi gyfri i un lle degol hefyd. Mae tri phwynt wyth yn y canol rhwng tri phwynt saith a thri phwynt naw metr. |
| | Felly roedd y pwyntiau hanner ffordd ar y naill ochr yn dri phwynt saith pump a tri phwynt wyth pump. Yr arffiniau isaf ac uchaf oedd rhain. Weithiau maen nhw'n cael eu galw y gwerth uchaf ac isaf, sef pum centimetr y naill ochr i dri phwynt wyth metr. |


© Copyright 2016

| | |
|---|---|
| TWM-SIÔN | Felly ti'n dweud bod y mesuriadau ddim yn hollol gywir? |
| AL GEBRA | Nagw! Dweud 'dw i fod angen dod o hyd i'r pywntiau hanner ffordd drwy ddefnyddio arffiniau uchaf ac isaf, nid trwy dalgrynnu.<br><br>Wnaeth Teri Twyllo - y torrwr carpedi twyllodrus - fesur hyd y carped i'r rhif amffiniol isaf, sef tri phwynt saith pum metr. |
| CATI | A gwnaeth y gwerthwr tai fesur y stafell i'r rhif amffiniol uchaf? |
| AL GEBRA | Do, tri phwynt wyth pum metr. |
| CATI | Yna mae deg centimetr o wahaniaeth rhwng beth ddwedodd y gwerthwr tai a beth ddywedodd Teri Twyllo! |
| AL GEBRA | Er bod mesuriadau'r hyd yn rhy fyr, roedden nhw wedi mesur y lled yn rhy hir, felly'n lwcus iddyn nhw, roedd digon yn sbâr. Dyna ddarn olaf y jig-so yn ei le. |
| TWM-SIÔN | Mae'n ffitio! |
| AL GEBRA | Wrth gwrs bod e Jimmy! Yn union fel balaclafa lliwgar lleidr o Llanffyrnig. |
| TWM-SIÔN | Twm-Siôn ydw i. |
| AL GEBRA | Call iawn 'Twm-Siôn', paid datgelu dy enw wrth neb. Peidiwch â phoeni, af i a'r dystiolaeth nôl i'r swyddfa i'w gadw'n saff.<br><br>Cês wedi cau. |


© Copyright 2016